| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 12 Ionawr 2016 |
| **TEITL** | Ymateb Cyngor Gwynedd i argyfwng y Ffoaduriaid o Syria |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Ioan Thomas |
| **PWRPAS** | Rhoi amlinelliad i aelodau ynghlyn a pharatoadau |

**1. CEFNDIR**

Mewn cyfarfod anffurfiol fe wnaeth aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd ddatgan awydd i estyn cymorth ac i chwarae rhan drwy ganfod llety i ffoaduriad o Syria. Bellach mae pob cyngor yng Nghymru wedi nodi parodrwydd i estyn cymorth.

**2. YSTYRIAETHAU**

**Niferoedd –** Nid oes cadarnhad o ran disgwyliadau ar awudrodudau lleol unigol ond petai'r ffigwr i ailsefydlu 20,000 o ffoaduriaid y cyfeirwyd ato yn natganiad y Prif Weinidog yn cael eu dosrannu yn gyfartal ar draws y Deyrnas Gyfunol byddai gofyn i Wynedd dderbyn hyd at 40 o bobl dros gyfnod o 4 mlynedd a hanner. Rydym felly yn defnyddio'r ffigwr o 40 ar gyfer pwrpasau cynllunio. Mae trafodaeth wedi bod ynghlyn a phryd y byddai modd estyn cymorth ac yn sgil trafodaethau y bwriad fyddai derbyn tua 10 person yn y lle cyntaf er mwyn gallu dysgu o'r broses.

**Amserlen –**Y disgwyliad yw bydd Cyngor Gwynedd yn rhan o Wedd 2a ffyddai'n golygu y byddai'r grwp cyntaf o ffoaduriaid yn gallu cyrraedd yn ystod flwyddyn newydd ond mae elfen o hyblygrwydd ynghlyn a phryd y gellid derbyn pobl a bydd yn ddibynnol ar drafodaeth gyda'r Swyddfa Gartref sy'n prosesu ac asesu'r ceisiadau.

**Llety a Lleoliad** –Mae ymdrechion cychwynnol ar gyfer y wedd gyntaf wedi canolbwyntio ar adnabod llety addas yn Ogledd y Sir gan ein bod o'r farn y byddai'n haws adnabod adnoddau cefnogol fyddai'n hwyluso ymdrechion i integreiddio. Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am eiddo o fewn y sector preifat er mwyn osgoi pwysau ar eiddo cymdeithasol ond fe all fod yn opsiwn i ystyried eiddo anodd ei osod i'r dyfodol.

**Partneriaid Allweddol -** Cyn derbyn unigolion bydd angen cysylltu gyda phartneriaid allweddol eraill er mwyn sicrhau bod ymdrechion yn cael eu cyd-drefnu a bydd angen trafod gyda Iechyd er mwyn sicrhau fod darpariaeth addas ar eu cyfer . Byddwn hefyd yn ceisio dysgu o brofiad y 4 awudrdod o Gymru sydd eisioes wedi derbyn ffoaduriaid er mwyn adnabdod a oes modd efelychu unrhyw ymarfer da.

**Cymorth Gwirfoddol –** Dros y misoedd diwethaf mae nifer o fudiadau o Wynedd wedi gwneud cyfraniad arbennig at yr ymgyrch i helpu ffoaduriaid ac mae gan y sir draddodiad anrhydeddus o estyn cymorth a chroesawy pobl. Mae fwriad manteisio ar y profiad yma drwy gydweithio gyda rhai sydd a phrofiad o weithio yn y maes er mwyn sicrhau ein bod defnyddio adnoddau ac arbennigedd sy'n bodoli eisioes .

**Ariannu –** Rydym wedi cael cadarhad gan y Swyddfa Gartref ynghlyn a'r pecyn ariannnol fydd ar gael i estyn cymorth ac i hwyluso integreiddio o fewn y gymuned. Mae Llywodraeth San Steffan bellach wedi cadarnhau y bydd ymrwymiad tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf gydag addewid y bydd peth arian yn parhau am gyfnod o 5 mlynedd er y bydd yn lleihau dros y 5 mlynedd.

**Statws** - Mae'r ffoaduriaid fydd yn cael eu hail leoli yng Nghymru wedi hadnabod fel y rhai mwyaf bregus a byddent yn cyrraedd o wersylloedd ffoaduriaid sydd wedi lleoli yn Libanus, Gwlad yr Iorddonen a Thwrci. Byddent wedi mynd trwy broses asesu drylwyr cyn cyrraedd ac yn derbyn gwarchodaeth ddyngarol llawn am 5 mlynedd sy'n golygu y bydd ganddynt hawl i fyw a gweithio o fewn y gymuned.